

Hanes – stori Duw

“Felly, bu’r Gyfraith yn was i warchod trosom hyd nes i Grist ddod, ac inni gael ein cyfiawnhau trwy ffydd.” (adn. 24)

Beth am ddarllen Galatiaid 3:15–25 ac yna myfyrio.

Fe roddwyd y Beibl at ei gilydd er mwyn adrodd stori Duw, ac fe roddwyd inni trwy’r straeon yn y Beibl yr hyn mae Thomas Howard yn ei alw’n “stori pob stori, yr unig stori sydd yn y diwedd”. Betha olygir gan “yr unig stori sydd yn y diwedd”? Mae Frederick Buechner yn ei lyfr *The Complete Literary Guide to the Bible* yn crynhoi holl neges yr Ysgrhythur fel hyn: “Mae Duw yn creu, yn colli ac yn adfer.” Fe â ymlaen i ddweud: “Nid dim ond casgliad o ragdybiaethau neu syniadau athronyddol yw Cristnogaeth, ond stori sydd yn gafael yn y dychymyg.”

Crynoha’r Dr Larry Crabb y peth ychydig yn wahanol pan ddywed bod saith o benodau i stori Duw: (1) Duw yn y Drindod; (2) Duw a’r angylion; (3) Dechrau drygioni; (4) Creu paradwys; (5) Colli paradwys; (6) Gogoniant yn cael ei ddatguddio trwy Grist; (7) Mwynhau gogoniant dros byth. Does yr un awdur arall yn y Testament Newydd yn llwyddo i fynegi rhediad tragwyddol bwriadau Duw fel mae Paul yn llwyddo yn y llythyr at yr Effesiaid. Ond yma yn y darn a ddarllenom heddiw fe lwydda i grynhoi stori’r Hen Destament – cyfnod o tua 2,000 o flynyddoedd – i mewn i 11 o adnodau. Mae fel petai’n disgrifio cadwyn o fynyddoedd gydag Abraham a Moses yn gopaon yn y gadwyn a Iesu Grist yn gopa uchaf – yn Everest – i’r cyfan. Hyn yw ei neges yn syml: cafodd addewid Duw i Abraham ei gadarnhau gan Moses a’i gyflawni yn Iesu Grist.

Yn yr adnodau hyn mae Paul yn ein dysgu am unoliaeth y Beibl, tra’n rhoi synnwyr inni hefyd bod Duw wedi bod ar waith trwy hanes yn cyflawni pwrpas a allai fod yn guddiedig ar y pryd, ond a oedd, er gwaethaf hynny, yn rhan o gynllun tragwyddol. “Mae mawr angen yn yr Eglwys heddiw am athroniaeth Gristnogol Feiblaidd o hanes,” meddai rhywun heddiw. Mae hynny’n sicr o fod yn wir, am mai ei stori ef yw hanes i gyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gal. 4:4–7;

Heb. 1:1–3

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw hawliau llawn meibion?
2. Beth yw hawliau llawn y Mab?

Gweddi O Dad, po fwyaf a ddysgaf am y stori rwyt ti wrthi’n ei dweud, mwyaf awyddus wyf i ddysgu. Dos â fi’n ddyfnach i mewn i’r pwnc hwn, addfwyn Arglwydd. A pha bynnag lyfr arall a esgeulusaf, helpa fi i beidio byth ag anwybyddu dy Air sbrydoledig di. Yn enw Iesu. Amen.